Taflen ffeithiau dyled

contact a family
for families with disabled children

Ymdopi gyda Dyledion-Lloegr a Cymru

www.**cafamily**.org.uk

Helpline 0808 808 3555 interpreters in over 100 languages via Lãngüagê Liñè

Contact a Family 209-211 City Road London EC1V 1JN **Tel** 020 7608 8700 **Fax** 020 7608 8701
Textphone 0808 808 3556 **e-mail** info@cafamily.org.uk **Web** www.cafamily.org.uk
Helpline 0808 808 3555 Freephone for parents and families (10am-4pm, Mon-Fri) **Chief Executive** Francine Bates

Registered Office 209-211 City Road London EC1V 1JN Registered Charity Number 284912
Company limited by guarantee Registered in England and Wales No 1633333 VAT Reg No GB 749 3846 82

This Factsheet is one of a series produced for parents and groups concerned with the care of disabled children. A full list of Contact a Family publications is available on request.

incorporating
The Lady Hoare Trust
November 2005

Cyflwyniad

Fe fydd gan y rhan fwyaf ohonom ddyledion o ryw fath neu'i gilydd. Fodd bynnag, fe all rhai pobl brofi problemau gydag ad-dalu'r arian y mae arnynt. Y mae yna lawer o resymau pam y gall hyn ddigwydd. Fe all fod yna newid annisgwyl wedi bod yn eich amgylchiadau neu gynnydd yn eich gwariant wythnosol na chynlluniwyd amdano. Fe wnaeth ymchwil diweddar a wnaed gan Cyswllt Teulu a Chronfa'r Teulu ddangos bod teuluoedd sy'n gofalu am blentyn sydd ag anabledd yn neilltuol o debygol o wynebu problemau dyledion. Fe wnaeth naw teulu o bob deg adrodd am ryw fath o anhawster ariannol, yn amrywio o gael ond ychydig o arian am ddanteithion bywyd i anawsterau ariannol difrifol. Fe amcangyfrifir fod magu plentyn gydag anabledd, ar gyfartaledd, yn costio tair gwaith yr hyn y mae'n ei gostio i fagu plentyn arall. O ystyried y ffaith hon, nid yw'n syndod y gall llawer o deuluoedd ei chael hi'n anodd yn ariannol.

> "Fe dreuliodd fy mab lawer o fisoedd i mewn ac allan o ysbyty gan gael amrywiol lawdriniaethau. Yr oedd fy ngŵr yn hunan-gyflogedig ar y pryd ac yr oedd yn rhaid iddo beidio â gweithio am lawer o fisoedd i ofalu am y ddau blentyn gartref. Ni wnaethom dderbyn unrhyw gymorth ariannol mewn unrhyw fodd na math yn y byd am unrhyw beth. Yr oedd y canlyniad yn anochel ac fe aeth y busnes i'r gwellt ac yr oeddem i bob diben ymarferol yn hollol dlawd. Nid wyf byth eto eisiau agor drysau'r cwpwrdd a gweld dim byd yno eto."

Fe all fod gan rai rhieni ond un ddyled y maent yn cael trafferthion i'w had-dalu; fe all fod ar eraill arian i amryw o wahanol bobl. Ni waeth beth fo'ch sefyllfa neilltuol, y mae'n bwysig nad ydych yn anwybyddu'ch problemau dyledion. Po hwyaf yr ydych yn aros cyn mynd i'r afael â'ch dyled, po waethaf y mae'r broblem yn debygol o fynd. Fe all gweithredu ar yr adeg gynharaf un olygu llai o broblemau i'w trin yn y dyfodol. Fe wyddom o'n gwaith ymchwil nad yw rhieni plant anabl bob amser yn gwybod sut i gael at gyngor gyda dyled. Ceisiwch â pheidio â mynd i banig ynglŷn â'ch dyledion - y mae yna gyngor annibynnol, cyfrinachol ac am ddim ar gael.

Os ydych mewn dyled, y mae'n bwysig iawn eich bod yn cadw mewn cysylltiad â'r bobl neu'r cwmnïau y mae arnoch arian iddynt - a adwaenir fel eich **'credydwyr'**. Fe adwaenir y person y mae arno arian fel y dyledwr. Fe all fod yn demtasiwn i geisio ag osgoi cysylltiad gyda'r credydwyr, yn enwedig os nad ydych yn gallu ad-dalu'r arian y mae arnoch ac eich bod yn brysur iawn yn gofalu. Os gwnewch hyn, y mae'n debygol y byddant yn tybio nad ydych yn dymuno talu iddynt. O ganlyniad, y maent yn debygol o gymryd camau pellach yn eich erbyn. Am y rheswm hwn, y mae'n bwysig iawn eich bod yn cysylltu â'ch credydwyr i egluro'r ffaith eich bod mewn anawsterau ariannol.

Dyma ganllaw byr i gynorthwyo gyda dyledion ac ni all ddarparu manylion llawn am y gyfraith. Yr ydym yn cynghori yn gryf eich bod yn cael cymorth cynghorydd ariannol o ran trin a thrafod gyda chredydwyr. Fe wna cynghorydd eich cynorthwyo chi i edrych ar eich holl sefyllfa a'ch cynorthwyo i asesu pa un ai a ydych yn gallu gwneud unrhyw daliadau i'ch credydwyr ac os gallwch, faint. Fe fyddant hefyd yn gallu'ch cynorthwyo i nodi pa gredydwyr y dylid eu talu'n gyntaf. Fe all cynghorydd ariannol hefyd fedru'ch cynorthwyo i weld a oes yna unrhyw ffyrdd y gellir cynyddu'ch incwm. Er enghraifft, fe allant fedru'ch cynorthwyo i hawlio budd-daliadau ychwanegol oddi ar y wladwriaeth neu'ch cynorthwyo i wneud cais am grant oddi wrth ymddiriedolaeth elusennol. Gweler yr adran ar **Cael Cymorth i Drin a Thrafod gyda'ch Credydwyr** am ragor o fanylion ynglŷn â sut i gael at gyngor am ddim a chyfrinachol oddi wrth gynghorydd ariannol.

A ydych chi'n atebol am y ddyled?

Cyn ichi ddechrau ar unrhyw drefniadau i dalu dyled, fe ddylech bob amser wirio i sicrhau bod y gyfraith yn dweud bod yn rhaid ichi'i thalu. Fe elwir hyn yn bod yn atebol am y ddyled. Weithiau, fe ofynnir i bobl wneud taliadau nad ydynt yn atebol yn ôl y gyfraith i'w had-dalu.

At ei gilydd, nid ydych yn atebol am ddyled neb arall oni bai eich bod wedi llofnodi cytundeb ar y cyd neu wedi gweithredu fel gwarantwr. Nid yw'r ffaith eich bod yn byw gyda rhywun, eich bod yn briod â hwynt neu oherwydd bod gennych yr un cyfeiriad yn golygu eich bod o angenrheidrwydd yn atebol am eu dyledion.
Fe fyddwch yn atebol os ydych wedi llofnodi cytundeb er mwyn cael arian, nwyddau neu wasanaethau ar gredyd.

- Os ydych wedi llofnodi cytundeb ar eich pen eich hun, y mae gennych **atebolrwydd llwyr**. Fe olyga hyn mai chi (a neb arall) sy'n atebol am ad-dalu'r ddyled.
- Os ydych wedi llofnodi cytundeb ynghyd â rhywun arall, y mae gennych **atebolrwydd ar y cyd ac yn unigol**. Fe olyga hyn y byddwch chi a'r person arall hwnnw ill dau bob un yn cael eich ystyried fel bod arnoch y swm llawn.
- Os ydych wedi llofnodi cytundeb fel **gwarantwr** dros rywun, fe olyga hyn eich bod wedi derbyn atebolrwydd am ddyled os nad yw'r person arall hwnnw yn talu.

Ewch am gyngor os ydych yn y sefyllfa hon. Edrychwch a oes yna unrhyw ffordd o herio'ch atebolrwydd; er enghraifft, os cawsoch eich camarwain neu os rhoddwyd pwysau arnoch i lofnodi'r cytundeb.

Fe all atebolrwydd ar y cyd ac yn unigol hefyd ddigwydd pan fo deddfwriaeth benodol yn ei osod. Er enghraifft, y mae deddfwriaeth treth cyngor yn gosod atebolrwydd ar y cyd ac yn unigol ar gyplau heterorywiol sy'n byw gyda'i gilydd a chyd-dentantiaid neu gydberchnogion. Fe gaiff hyn ei ymestyn i gyplau o'r un rhyw yn Rhagfyr 2005 drwy weithredu Deddf Partneriaeth Sifil 2004.

Marwolaeth y person y mae arno arian

At ei gilydd, nid ydych yn atebol am ddyledion rhywun sydd wedi marw, ni waeth pa mor agos oedd eich perthynas. Fe ellir cael eithriadau i hyn mewn amgylchiadau cyfyngedig, e.e. ble yr oeddech yn atebol ar y cyd ac yn unigol am ddyled gyda'r person ymadawedig neu ble yr ydych yn etifeddu eiddo gyda morgais heb ei dalu oddi wrth yr ymadawedig (er yn aml fe gaiff hwn ei dalu gan bolisi yswiriant bywyd).
Fe ddywed y gyfraith fod ar rai pobl angen eu diogelu parthed y contractau y maent yn eu gwneud:

Dyled Plant

Ni all credydwr fel arfer gymryd camau yn erbyn dyled sy'n ddyledus gan blentyn dan oed (rhywun ieuengach na deunaw mlwydd oed). Eithriad i hyn yw os yw'r contract ar gyfer "angenrheidiau". Nid oes yna ddiffiniad safonol o "angenrheidiau", ond y mae enghreifftiau yn cynnwys bwyd a dillad. Ewch am gyngor oddi wrth asiantaeth gynghori os yw credydwr yn ceisio ag adennill dyled oddi wrth blentyn dan oed.

Analluogrwydd

Os nad oedd rhywun yn gallu deall yr hyn yr oeddynt yn ei wneud pan oeddynt yn gwneud cytundeb, fe all na ellir ei gorfodi oherwydd eu hanalluogrwydd. Fe ellir achosi analluogrwydd gan afiechyd meddwl, anawsterau dysgu, diod feddwol neu gyffuriau. Ewch am ragor o gyngor oddi wrth asiantaeth gynghori os ydych chi, neu rywun yr ydych yn gofalu amdano, yn y sefyllfa hon.

Dylanwad gormodol

Os ydych wedi cael eich gorfodi i lofnodi cytundeb yn groes

i'ch ewyllys (e.e. gan gymar) neu wedi'ch camarwain, fe ddylech ymofyn cyngor cyfreithiol ar frys. Yn yr un modd, fe ddylech hefyd ymofyn cyngor cyfreithiol os ydych yn credu bod rhywun wedi llofnodi cytundeb yn eich enw heb eich gwybodaeth.

Deddf Credyd Defnyddwyr 1974

Y mae Deddf Credyd Defnyddwyr 1974 yn rheoleiddio'r rhan fwyaf o gytundebau credyd ac y mae'n darparu rhywfaint o amddiffyniad i bobl sydd mewn dyled. Y mae trefniadau credyd fel arfer yn drefniadau ble y telir am nwyddau, benthyciadau neu wasanaethau mewn rhandaliadau. Fe gânt fel arfer eu rheoleiddio o dan Ddeddf Credyd Defnyddwyr 1974 os oedd maint y credyd neu'r benthyciad yn llai na £25,000. Os yw'r cytundeb yn rheoledig, y mae'n rhaid iddo gynnwys rhai telerau a ffurfioldeb neilltuol. Os nad yw cytundeb wedi'i lunio yn unol â'r Ddeddf, fe all na ellir ei orfodi. Er enghraifft, fel gofalwr fe allwch ei chael hi'n haws siopa drwy gatalog archebu drwy'r post. Fe ddylid anfon copi o gytundeb credyd atoch i'w lofnodi. Os nad ydych wedi llofnodi cytundeb, efallai na ellir gorfodi'r ddyled. Ewch am ragor o gyngor oddi wrth asiantaeth gynghori.

A yw'r ddyled wedi dirwyn i ben oherwydd amser?

Os nad yw dyled wedi'u thalu am lawer o flynyddoedd, ewch am gyngor cyn cysylltu â'r credydwr neu unrhyw gasglwr dyledion. Fe all na ellir gorfodi'r ddyled yn gyfreithiol mwyach. Fe ddywed y gyfraith fod gan y rhan fwyaf o gredydwyr 6 blynedd i ddechrau achos yn eich erbyn. Fodd bynnag, y mae hwn yn faes dyrys ac fe ddylech ymofyn cyngor os ydych yn credu ei fod yn berthnasol i chi.

A yw'r swm sy'n ddyledus yn gywir?

Y mae hi bob amser yn werth gwirio'r swm y mae'r credydwr yn dweud sy'n ddyledus gennych. Weithiau, fe allant gamgyfrif y ddyled sydd heb ei thalu gan ofyn ichi ad-dalu gormod. Y mae enghreifftiau o ble y gall hyn ddigwydd yn cynnwys:

- Camgyfrif y swm sy'n ddyledus
- Codi llog ar fenthyciad di-log
- Goramcangyfrif biliau tanwydd
- Anghofio taliadau yr ydych wedi'u gwneud – ceisiwch â chofio cadw derbynebau am daliadau

Fe all rhai benthyciadau gael eu diogelu gan yswiriant rhag gwaeledd neu ddiweithdra, gan dalu'r holl ddyled neu rywfaint o'r ddyled cyn belled â bod telerau'r polisi yn cael eu bodloni. Fe adwaenir hyn yn aml fel 'yswiriant diogelu taliad'. Fe ddylech bob amser edrych i weld a yw unrhyw rai o'ch dyledion yn cael eu diogelu gan gytundeb yswiriant o'r fath. Ewch i ymofyn rhagor o gyngor os credwch y dylech gael eich diogelu gan gynllun o'r fath ond fod y cwmni yswiriant yn gwrthod â thalu.

Dechrau rheoli'ch dyledion

gwnewch dair rhestr

Fe allech deimlo eich bod yn cael eich llethu gan eich dyledion a'ch diffyg arian i'w talu hwynt. Fe wna'r broses o ymdrin â'r dyledion gynnwys edrych ar eich incwm a gweld a ellir ei gynyddu mewn unrhyw ffordd. Y mae'r adran am 'Cynyddu Incwm Hyd yr Eithaf' yn egluro mwy am y math o gymorth a all fod ar gael. Felly, y rhestrau cyntaf y mae arnoch angen yw un ar gyfer incwm ac un ar gyfer gwariant – gweler isod.

Y mae hi hefyd yn hanfodol fod gennych ddarlun cyflawn o'ch holl ddyledion er mwyn penderfynu sut i'w rheoli hwynt. Fe all fod arnoch arian i amryw o wahanol bobl ac felly fe fydd arnoch hefyd angen llunio rhestr o bawb y mae arnoch arian iddynt a faint sy'n ddyledus i bob credydwr. Fe allai hyn gynnwys cardiau credyd neu gardiau siopau, catalogau, ôl-ddyledion rhent, ôl-ddyledion morgais, ôl-ddyledion treth cyngor, benthyciadau banc neu fenthyciadau personol eraill. Fe all llunio rhestr fel hyn swnio'n dorcalonnus ond y mae'n hanfodol i ymdrin â'ch dyledion yn effeithlon ac yn deg.

Rhestrau un a dau – cyfrifwch eich incwm a'ch gwariant

Y mae hi hefyd yn wirioneddol bwysig fod gennych syniad pendant o faint o arian, os o gwbl, sydd gennych ar gael i geisio â thalu rhywfaint o'ch dyledion. Y mae hyn yn golygu paratoi rhestr fanwl iawn o'ch incwm a rhestr fanwl iawn o'ch gwariant i gael gwybod faint y gallwch ei gynnig i gredydwyr. Y mae'r rhestrau hyn wedyn yn cael eu crynhoi mewn "datganiad ariannol" y gellir ei anfon at gredydwyr i roi darlun iddynt o'ch amgylchiadau ariannol. Yr ydym wedi cynnwys taflen incwm/gwariant ar dudalen **13** o'r daflen wybodaeth hon i'ch cynorthwyo gyda'r broses hon.

Pan ydych yn llunio rhestrau o'r math hyn, y mae hi'n bwysig eich bod yn penderfynu pa un ai i ddefnyddio symiau wythnosol neu fisol. Y mae'n rhaid i'r ffigurau a ddefnyddir yn eich taflen incwm/gwariant gydymffurfio gyda'r un cyfnod o amser.

Fe all gwneud rhestrau o'ch incwm a'ch gwariant deimlo'n ddychrynllyd ond y mae'n angenrheidiol i gael gwybod faint o arian sydd gennych ar gael i geisio â thalu'ch dyledion. Fe all rhestru'ch gwariant hefyd eich cynorthwyo i ganfod a oes yna unrhyw arbedion dichonol y gallech chi fedru'u gwneud yn eich gwariant rheolaidd. Pan ydych yn gwneud eich rhestr o wariant, peidiwch â chynnwys y taliadau yr ydych yn eu gwneud tuag at y dyledion, oherwydd y mae arnoch angen gweld faint y mae arnoch ei angen bob wythnos neu fis ar

gyfer eich anghenion byw rheolaidd.

Er ei bod yn bwysig edrych i weld a ellid lleihau rhywfaint o'ch gwariant, y mae hi hefyd yn anhepgor nad ydych yn nodi symiau sy'n afrealistig o isel. Y mae arnoch angen cael cyllideb fforddiadwy a chynaliadwy er mwyn sicrhau nad ydyw'ch problemau dyledion yn parhau. Y mae hi'n bwysig iawn eich bod yn realistig ynglŷn â'r symiau yr ydych yn eu gwario. Er nad ydych efallai yn gwario arian ar ddillad ac esgidiau bob wythnos, fe fydd y rhain yn gostau o bryd i'w gilydd, ac felly cofiwch gyllidebu ar gyfer yr eitemau hyn. Materion pwysig eraill i'w hystyried yw yswiriant car a chartref. Y mae'n rhaid ichi dalu yswiriant car yn ôl y gyfraith. Y mae yswirio'ch cartref hefyd yn bwysig iawn oherwydd canlyniadau tân neu ladrad.

Fe ddylech hefyd geisio â sicrhau eich bod yn rhestru yn llawn yr holl gostau ychwanegol sydd yn eich wynebu o ganlyniad i anabledd eich plentyn. Cofiwch mai nod budd-daliadau megis Lwfans Byw i'r Anabl yw talu am anghenion gofal a symudedd eich plentyn anabl. Er bod angen iddynt gael eu rhestru fel incwm fel bod eich credydwyr yn ymwybodol o'ch sefyllfa deuluol, fe ddylech sicrhau bod yna swm sydd o leiaf yn gyfartal â'ch LBA yn cael ei gynnwys fel gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd. Fe ddylai hyn fod o gymorth i sicrhau nad yw LBA eich plentyn yn cael ei ystyried gan eich credydwyr fel incwm sydd ar gael i ad-dalu'ch dyledion.

Fe fydd cynghorydd ariannol yn gallu'ch cynorthwyo i lenwi ffurflen incwm/gwariant ac fe wna wirio i sicrhau nad oes yna dreuliau pwysig yr ydych wedi anghofio'u crybwyll.

Rhestr tri – y dyledion

Canfod eich dyledion blaenoriaethol

Unwaith y mae gennych syniad pendant o'r holl arian y mae arnoch, fe fydd hi'n bwysig canfod pa rai o'r rhain sy'n 'ddyledion blaenoriaethol'. Wrth benderfynu pa ddyledion i'w blaenoriaethu, y ffactor pwysig yw'r canlyniadau posibl os yw'r credydwr yn penderfynu cymryd camau ffurfiol yn eich erbyn, nid y swm sy'n ddyledus gennych.

Y mae **dyledion blaenoriaethol** yn cynnwys:

- Ôl-ddyledion morgais neu unrhyw fenthyciad sydd wedi'i sicrhau yn erbyn eich eiddo – fe allech golli'ch cartref
- Ôl-ddyledion rhent - fe ellid eich dadfeddiannu
- Ôl-ddyledion Treth Cyngor – fe ellid atafaelu'ch nwyddau, fe ellid didynnu o'ch cyflog neu o rai budd-daliadau, fe ellid hyd yn oed eich carcharu mewn rhai amgylchiadau prin
- Ôl-ddyledion nwy a thrydan – fe ellid datgysylltu'ch cyflenwad tanwydd
- Dirwyon llys – fe ellid atafaelu'ch nwyddau, fe ellid didynnu o'ch cyflog neu o rai budd-daliadau, fe ellid eich carcharu
- Ôl-ddyledion cynhaliaeth - fe ellid atafaelu'ch nwyddau, fe ellid didynnu o'ch cyflog neu o rai budd-daliadau, fe ellid eich carcharu
- Ôl-ddyledion treth incwm neu TAW – atafaelu'ch nwyddau, methdaliad.

Y mae **dyledion nad ydynt yn flaenoriaeth** yn cynnwys y rhan fwyaf o fathau o gytundebau credyd cyn belled nad ydynt wedi'u sicrhau yn erbyn eich cartref. Y mae'r rhain yn cynnwys:

- Dyled cerdyn credyd
- Gorddrafftiau banc
- Dyledion catalog
- Cardiau siopau
- Benthyciadau ansicredig

Hurbrynu – Y mae hurbrynu yn fath arbennig o gredyd sy'n golygu eich bod ond yn "llogi" (rhentu) y nwyddau tan yr ydych yn eu "prynu" hwynt ar ddiwedd y cytundeb. Fe olyga hyn nad ydych yn berchen ar y nwyddau tan ddiwedd y cytundeb – tan hynny, y mae'r credydwr yn parhau i feddu arnynt. Os ydych wedi ad-dalu llai na 1/3 y swm sy'n ddyledus o dan gytundeb hurbrynu, fe fydd eich credydwr yn gallu adfeddiannu'r nwyddau heb orfod cymryd camau drwy'r llys. Fe fydd pa un ai a yw dyled hurbrynu yn cael ei hystyried fel blaenoriaeth uchel felly yn dibynnu ar faint yr ydych wedi'i dalu ac a yw'r eitem o dan sylw yn hanfodol ichi; er enghraifft, popty neu gerbyd a ddefnyddir ar gyfer gofalu.

At ei gilydd, fe ddylid ymdrin â dyledion blaenoriaethol yn gyntaf cyn ichi geisio ag ad-dalu unrhyw ddyledion nad ydynt yn flaenoriaeth, gan fod canlyniadau peidio â thalu dyledion blaenoriaethol yn fwy difrifol.

Fe all rhai pobl ganfod eu bod yn cael anawsterau oherwydd eu bod yn ad-dalu'r credydwyr anghywir yn gyntaf gan fod credydwyr nad ydynt yn flaenoriaeth yn aml yn rhoi mwy o bwysau ar bobl mewn dyled.

Cael cymorth i drin a thrafod gyda'ch credydwyr

Fe all meddwl am drin a thrafod gyda chredydwyr fod yn beth gofidus i'r mwyafrif o bobl. Fodd bynnag, ni ddylech orfod gwneud hyn ar eich pen eich hun. Fe ddylech allu cael at gyngor cyfrinachol, diduedd ac am ddim oddi wrth gynghorydd ariannol.

Y mae gan lawer o sefydliadau gynghorwyr ariannol hyfforddedig sy'n gallu darparu cyngor cynhwysfawr. Fe ddylech allu cael manylion gwasanaethau sydd yn eich ardal oddi wrth *Advice UK* (http://www.adviceuk.org.uk) ar y rhif ffôn 020 7407 4070 neu oddi wrth eich Canolfan Gynghori leol (CAB). Am fanylion eich Canolfan Gynghori leol, fe ddylech ffonio'r Canolfannau Cynghori ar y Rhif Ffôn 020 7833 2181 (http://www.citizensadvice.org.uk) neu edrychwch yn eich llyfr ffôn lleol. Mewn rhai asiantaethau, fe all staff hefyd gael eu hyfforddi i ymgymryd â gwaith cynghori eu hunain ynglŷn â dyledion. Y mae manylion prosiectau lleol sy'n darparu cyngor ariannol hefyd ar gael oddi wrth Linell Gymorth Cyswllt Teulu.

Pe byddai'n amgenach gennych, y mae hi hefyd yn bosibl cael cyngor ar y ffôn. Os ffoniwch y **Llinell Ddyledion Genedlaethol** ar 0808 808 4000, fe ddylech allu siarad â chynghorydd ariannol hyfforddedig a wna drafod eich problemau dyled gyda chi. Y mae gan y Llinell Ddyledion Genedlaethol gyfres bellgyrhaeddol o daflenni gwybodaeth gan gynnwys, er enghraifft, "Sut i osgoi dyled yn ystod y Nadolig."

Unwaith y mae gan gynghorydd ariannol syniad eglur o'ch holl sefyllfa, fe fydd yn canolbwyntio yn gychwynnol ar eich cynorthwyo chi i ddatblygu cynllun i ddod i gytundeb ynglŷn ag ad-dalu'ch dyledion blaenoriaethol. Os oes gennych unrhyw incwm dros ben yn weddill ar ôl y broses hon, fe fydd y cynghorydd ariannol wedyn yn ceisio â dod i gytundeb gyda'ch credydwyr nad ydynt yn flaenoriaeth. Fe wneir hyn fel arfer drwy gynnig canran o'ch 'incwm dros ben' i bob un credydwr nad ydyw'n flaenoriaeth. Fe gaiff hyn ei gyfrifo fel arfer ar sail deg trwy yr hyn y mae credydwyr y mae'r arian mwyaf yn ddyledus iddynt yn cael cynnig y mwyaf. Y mae credydwyr yn gyfarwydd â'r drefn hon.

Nid oes yr un credydwr yn hoffi cael cynnig llai tuag at ddyled na'r hyn y cytunwyd arno yn wreiddiol. Fodd bynnag, y mae llawer yn fodlon trafod ad-daliadau llai dros gyfnod hwy cyn belled ag eich bod yn methu yn ddiffuant â thalu mwy.

Fe wna cynghorydd ariannol hefyd geisio â chael eich credydwyr i gytuno i rewi'r taliadau llog ar eich dyled. Weithiau, fe all credydwr hefyd gytuno i ddiddymu'r cyfan, neu ran o ddyled. Fe all credydwr fod yn fwy parod i ystyried hyn os oes yna amgylchiadau lliniarol sydd wedi cyfrannu tuag at eich problemau ariannol a bod eich amgylchiadau yn annhebygol o wella yn y dyfodol agos. Er enghraifft, efallai eich bod wedi gorfod rhoi'r gorau i weithio neu leihau'ch oriau o ganlyniad i gyfrifoldebau gofalu neu eich bod wedi mynd i ddyled o ganlyniad i wariant sylweddol ar eitem yr oedd ei hangen i ddiwallu anghenion gofal eich plentyn.

Fe all rhai credydwyr fod yn fodlon ystyried cyfnod dros dro ble y caniateir ichi wneud dim ad-daliad. Fe all hyn fod yn neilltuol o ddefnyddiol os oes yna ragolwg realistig y bydd eich amgylchiadau ariannol yn gwella yn y dyfodol agos.

Taliadau rhent, treth cyngor, dŵr ac ôl-ddyledion tanwydd, a rhieni ar Gymhorthdal Incwm (CI), Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm (LCGsi) neu Gredyd Pensiwn (CP)

Os ydych yn derbyn CI neu LCGsi, fe all fod yn bosibl gwneud trefniant trwy yr hyn y bydd swm penodol (ar hyn o bryd £2.85 yr wythnos) yn cael ei ddidynnu o'ch budd-dal ac yn cael ei dalu i'ch landlord tuag at ôl-ddyledion rhent. Fe all hefyd fod yn bosibl trefnu ar gyfer taliad penodol o £2.85 yr wythnos i'w ddidynnu o'ch budd-dal wythnosol a'i dalu tuag at ôl-ddyledion treth cyngor. Sylwch, os gwelwch yn dda, fod y trefniadau hyn ond yn ymwneud ag ôl-ddyledion ac fe fydd yn rhaid ichi sicrhau eich bod yn talu unrhyw daliadau rent neu dreth cyngor cyfredol.

Fe all y sawl sy'n hawlio CI neu LCGsi hefyd fedru gwneud trefniant trwy yr hyn y didynnir arian oddi wrth fudd-dal er mwyn talu am eich defnydd cyfredol o danwydd – fe adwaenir hwn yn aml fel **'Tanwydd Uniongyrchol'**. Fe fydd y cyflenwr tanwydd yn cyfrifo amcangyfrif o'ch costau tanwydd wythnosol cyfredol ac ychwanegu swm penodol bychan (ar hyn o bryd £2.85 yr wythnos tuag at eich ôl-ddyledion). Fe fydd cyfanswm y ffigwr wythnosol wedyn yn cael ei ddidynnu yn uniongyrchol o'ch budd-dal a'i dalu i'r cyflenwr(wyr) tanwydd.

Os oes gennych ôl-ddyledion o daliadau dŵr, fe allwch hefyd ofyn am i ddidyniadau gael eu gwneud o'ch CI, LCGsi neu CP i dalu am daliadau dŵr cyfredol a hefyd swm tuag at yr ôl-ddyledion.

Pa gamau a all credydwyr eu cymryd i adennill dyledion?

Un o'r pethau mwyaf ingol ynglŷn â bod mewn dyled yw ymdrin â galwadau am daliadau oddi wrth eich credydwyr. Os oes arnoch arian, fe allwch ganfod eich bod yn cael llythyrau yn gofyn am dâl, yn cael eich bygwth gydag achos llys neu'n cael casglwyr dyledion yn dod atoch. Y mae gan gredydwyr yr hawl i wneud galwadau rhesymol am ad-daliad. Fodd bynnag, y mae'r Swyddfa Masnachu Teg wedi cynhyrchu dogfen, '*Debt Collection Guidance*', sy'n disgrifio arferion y mae'r SMT yn eu hystyried yn annheg.

Fe wna rhai credydwyr benodi casglwyr dyledion i adennill arian sy'n ddyledus iddynt. **Nid** oes gan gasglwyr dyledion hawliau cyfreithiol i fynd i mewn i'ch cartref nac i gymryd eich nwyddau, ac fe ddylid trin a thrafod gyda hwynt yn union yr un ffordd â chredydwyr eraill.

Aflonyddwch gan gredydwyr

Y mae aflonyddu dyledwyr yn dramgwydd troseddol o dan Adran 40 Deddf Gweinyddu Cyfiawnder 1970. Mewn rhai achosion, fe all llythyrau, galwadau ffôn neu ymweliadau credydwyr fod yn or-ymwthiol. Fe all enghreifftiau o hyn gynnwys:

- Defnyddio tactegau dychryn megis honni yn anghywir y gellir dod ag achos troseddol yn eich erbyn neu fygwth cysylltu â'r heddlu
- Ymweliadau neu alwadau ffôn sy'n boendod, yn enwedig yn ystod oriau anarferol
- Aros y tu allan i'ch gweithle ar ddiwrnod cyflog
- Galw ar gymdogion, gan gymryd arnynt eu bod yn credu eich bod yn byw yn eu cyfeiriad.

Os ydych yn cael eich aflonyddu yn y modd hwn, ewch at gynghorydd ariannol yn syth a gofynnwch iddo ysgrifennu at y credydwr i adael iddo wybod eu bod yn cadw golwg ar y camau y mae'r credydwr yn eu cymryd. Fe fydd cynghorydd ariannol hefyd yn gallu'ch cynghori chi ynglŷn ag achwyn am y credydwr wrth yr Adran Safonau Masnachu leol neu'r Swyddfa Masnachu Teg.

Ni ellir fel rheol eich anfon i garchar am beidio â thalu dyledion oni bai, er enghraifft, eich bod yn gwrthod yn fwriadol â thalu taliadau cynhaliaeth neu dreth cyngor. Er hynny, fe all eich credydwyr fynd â chi i'r llys ac fe allant gael yr hawl i gymryd rhai camau neilltuol yn eich erbyn. Fe all hyn gynnwys, er enghraifft, dadfeddiannu neu ailfeddiannu'ch cartref, atafaelu eiddo neu atafaelu enillion (trefniant drwy'r hyn y didynnir arian o'ch enillion).

Fe fydd rhai llythyrau oddi wrth gredydwyr yn datgan eu bod yn 'rhag-gyfreithiol'. Nid dogfennau'r llys yw'r rhain. Y maent ond yn llythyrau sy'n eich bygwth gyda chamau cyfreithiol. Fe fydd yr hyn y mae'n rhaid i'ch credydwr ei wneud cyn dechrau achos llys yn dibynnu ar natur y ddyled. Er enghraifft, cyn y gall landlordiaid preifat ddechrau achos meddiannu mewn llys i geisio â dadfeddiannu tenantiaid, y mae'n rhaid eu bod wedi anfon "rhybudd i adael". Ewch am gyngor os oes gennych ôl-ddyledion yn gysylltiedig â'ch cartref. Ni all llawer o gredydwyr ddechrau achos llys tan eu bod wedi anfon "rhybudd drwgdalu" atoch.

Beth yw rhybudd drwgdalu?

Os yw cytundeb yn cael ei reoleiddio o dan Ddeddf Credyd Defnyddwyr 1974, fel arfer y mae'n rhaid i gredydwyr gyhoeddi rhybudd drwgdalu cyn y dechreuir ar achos llys. Fe wna'r rhybudd drwgdalu ofyn ichi sicrhau bod eich taliadau wedi'u talu hyd at hynny.

Os nad ydych yn gallu gwneud hyn, yna fe ddylech ymofyn cymorth gan gynghorydd ariannol. Cyn belled â bod y ddyled am lai na £25,000, fe fyddwch yn gallu gwneud cais i'r Llys am Orchymyn Amser. Cais yw hyn yn gofyn am fwy o amser i dalu'ch dyled. Fe ddylech drafod hyn gyda gweithiwr cynghori.

Dyledion tanwydd

Fe all cwmnïau nwy a thrydan ddatgysylltu cyflenwad tanwydd cwsmer sydd ag ôl-ddyledion heb fynd i'r llys am ganiatâd. Fodd bynnag, fe ddylai cyflenwr fynd drwy rhai gweithdrefnau cyn datgysylltu cyflenwad. Er enghraifft, derbyn tanwydd uniongyrchol (gweler uchod) os ydych yn gymwys ac yn cynnig mesurydd rhagdal, os yw hi'n ddiogel ac yn ymarferol gwneud hynny. Y mae yna hefyd rywfaint o amddiffyniad rhag datgysylltu ar gyfer cartrefi sydd ag aelodau diymgeledd. Er enghraifft, y mae'n rhaid i gwmni trydan osgoi datgysylltu cyflenwad rhywun sy'n bensiynwr, sy'n anabl neu'n rhywun â salwch hirfaith yn ystod misoedd y gaeaf. Edrychwch ar god ymarfer eich cyflenwr ynglŷn â datgysylltu. Y mae gan rai cyflenwyr tanwydd hefyd gronfeydd ymddiriedolaeth a all gynnig cymorth i bobl sy'n profi anhawster i dalu'u biliau. Gweler yr adran ar 'Cynyddu Incwm Hyd yr Eithaf'.

Os ydych yn cael anawsterau yn ymwneud â'ch cyflenwad tanwydd, fe allwch gysylltu ag *Energywatch*. *Energywatch* yw'r gwarchotgi annibynnol dros ddefnyddwyr nwy a thrydan. Ei fanylion cysylltu yw:
Ffôn: 0845 906 0708 Ffacs: 020 7799 8341
Y mae gwasanaeth *RNID Typetalk* ar gyfer pobl sy'n fyddar neu y mae arnynt nam ar y lleferydd a'r clyw: 18001 08459 06 07 08
E-bost:enquiries@energywatch.org.uk
Gwefan:http://www.energywatch.org.uk

Taliadau Dŵr

Ni all eich cwmni dŵr atal eich cyflenwad os oes gennych ôl-ddyled. Fodd bynnag, fe all y cwmni dŵr er hynny wneud cais yn y llys sirol i adennill ôl-ddyled. Y mae'n rhaid i gwmnïau dŵr gael cod ymarfer ynglŷn ag ymdrin â chwsmeriaid sydd ag ôl-ddyled ac y mae gan rai cwmnïau dŵr gronfeydd ymddiriedolaeth a all gynnig cymorth gyda biliau dŵr. Gweler yr adran ar 'Cynyddu Incwm Hyd yr Eithaf' am fwy o wybodaeth. Hefyd, fe ellir tynnu taliadau uniongyrchol oddi wrth rai budd-daliadau i gynorthwyo i reoli ôl-ddyledion (gweler uchod).

Fe all rhai pobl sydd â mesuryddion gael rhywfaint o gymorth gyda chost eu dŵr oherwydd bod arnynt angen defnyddio llawer o ddŵr er dibenion hanfodol.

Fe all rhai cwsmeriaid gyda mesuryddion yn Lloegr gael eu diogelu rhag talu biliau dŵr enfawr o dan reoliadau'r llywodraeth ar gyfer grwpiau diymgeledd. Os yw'ch cartref yn gymwys, yna fe fyddwch ond yn talu cyfartaledd y biliau dŵr i gartrefi ar gyfer eich cwmni dŵr. Ffoniwch y Llinell Gymorth am fwy o wybodaeth am a allwch chi elwa o'r rheoliadau hyn. Er bod y rheoliadau yn ymwneud â chwmnïau sy'n gweithredu yn Lloegr, y mae cwmnïau sy'n gweithredu yng Nghymru wedi cyflwyno darpariaethau cyfwerth ar sail wirfoddol. Cysylltwch â'r cwmnïau yng Nghymru am ragor o wybodaeth.

Cael eich dwyn i'r llys?

Os nad ydych yn gallu datrys problem dyled gyda'ch credydwr, fe all benderfynu mynd â chi i'r llys. Fe all fod ar gredydwr angen defnyddio gwahanol lysoedd ar gyfer gwahanol fathau o ddyledion. Y mae'r adran hon yn ystyried rhai o'r achosion llys yn gysylltiedig â dyledion yn y llys sirol a llys ynadon.

Os ydych yn cael eich dwyn i'r llys, y mae'n bwysig iawn eich bod yn cael cyngor arbenigol. Gweler yr adran am **Cael Cymorth** am fanylion ynglŷn â sut i gael cyngor cyfrinachol, am ddim gan gynghorydd ariannol.

Llysoedd Sirol

Fe fyddwch yn gwybod bod eich credydwr wedi dechrau achos yn y llys sirol os derbyniwch ffurflen gais oddi wrth y llys. Ar y ffurflen gais, fe gyfeirir atoch fel y diffynnydd ac at eich credydwr fel yr hawlydd. Fe wna'r ffurflen gais eich hysbysu ynglŷn â phwy sy'n mynd â chi i'r llys, y swm y maent yn dweud y mae arnoch iddynt a'r camau y maent yn gofyn i'r llys eu cymryd.

Ôl-ddyledion taliadau rhent a morgais a benthyciadau a sicrhawyd yn erbyn eich cartref:
Os oes arnoch chi ôl-ddyled rhent neu forgais, fe all eich landlord neu'ch benthyciwr morgais wneud cais i'r llys sirol i geisio ag ennill meddiant o'r eiddo. Fe wnewch dderbyn manylion cais llys sirol a'r dyddiad a'r amser ar gyfer gwrandawiad, y dylech ei fynychu.

Hyd yn oed os yw'r llys yn caniatáu gorchymyn meddiannu, fe all o hyd fod yn bosibl "gohirio'r" gorchymyn, cyn belled ag eich bod yn gwneud taliadau y cytunwyd arnynt.

Ewch am gyngor arbenigol ar frys os yw'ch landlord neu'ch benthyciwr morgais yn ceisio â chael meddiant o'ch cartref.

Nid yw'r llys sirol yn barnu a yw rhywun yn ddieuog neu'n euog ond fe all ddatrys anghydfod ynglŷn â dyledion. Y mae llysoedd sirol yn ymdrin â nifer fawr o achosion o ddyled, gan gynnwys y mathau canlynol o ddyledion:

- Ceisiadau am arian yn unig, e.e., am ad-dalu gorddrafft
- Ceisiadau parthed tir, e.e., am feddiannu cartref gan landlord, er enghraifft, oherwydd ôl-ddyled rhent
- Ceisiadau parthed cytundebau a reoleiddir gan Ddeddf Credyd Defnyddwyr 1974, e.e., adfeddiannu eitem trwy hurbrynu.

Ceisiadau am arian yn unig yn y llys sirol

Y mae'r rhan fwyaf o'r anghydfodau hyn yn cael eu trin ar bapur gan staff y llys ac ni fyddant yn golygu gwrandawiad.

Pan dderbyniwch y ffurflen gais, fe ddylech hefyd dderbyn ffurflen cyfaddefiad, ffurflen amddiffyn a ffurflen cydnabod

gwasanaeth. Fe ddisgwylir ichi ymateb i'r ffurflen gais gan ddynodi pa un ai a ydych yn dymuno gwadu (amddiffyn) neu'n cyfaddef y cais. Fe fydd yna hefyd fanylion ynglŷn â'r **terfynau amser** o fewn pryd y dylech ateb.

Os anwybyddwch y ffurflen gais, fe all y credydwr ofyn am gofnodi dyfarniad trwy ddiffygiad. Fe olyga hyn y bydd y llys yn gorchymyn taliad ar y gyfradd a ddewisir gan y credydwr.

Cyfaddef y cais – fe olyga hyn eich bod yn cytuno bod arnoch chi'r arian. Os ydych yn cyfaddef y ddyled ond na allwch fforddio i'w thalu, fe allwch ofyn am amser i dalu. Y mae'r ffurflen cyfaddefiad yn gofyn am fanylion eich incwm a'ch gwariant a'ch cynnig o daliad.

Os yw'r credydwr yn gwrthod eich cynnig, fe wna swyddog llys fel arfer benderfynu ynglŷn â faint y dylech dalu. Fe elwir hyn yn benderfyniad. Os nad ydych yn fodlon gyda'r penderfyniad, y mae gennych amser cyfyngedig i ofyn am ailbenderfyniad.

Amddiffyn y cais – fe olyga hyn eich bod yn anghytuno bod arnoch chi'r swm a ddatgenir gan y credydwr. Fe all hyn fod, er enghraifft, oherwydd nad ydych yn credu eich bod yn atebol am y ddyled.

Os ydych yn dymuno amddiffyn y cais, fe allwch naill ai cwblhau ffurflen amddiffyn neu gwblhau ffurflen cydnabod gwasanaeth. Y mae cofnodi'r ffurflen cydnabod gwasanaeth yn caniatáu ychydig mwy o amser ichi ymofyn cyngor a dychwelyd eich amddiffyniad.

Beth os na allwch fforddio i dalu dyfarniad llys sirol?

Y dyfarniad yw penderfyniad y llys. Os ar unrhyw adeg ar ôl y dyfarniad na allwch fforddio'r taliadau, fe allwch ofyn i'r llys amrywio'r dyfarniad. Er enghraifft, fe all amrywiad ymwneud â newidiadau i amlder y rhandaliadau.

Gorfodi dyfarniadau llys sirol

Os nad ydych yn glynu wrth eich taliadau llys sirol, fe all eich credydwr ddechrau camau gorfodi drwy'r llysoedd i wneud ichi dalu. Y gweithdrefnau gorfodi yn y llys sirol yw:

- Gwarant i weithredu – gan ddefnyddio beilïod i atafaelu nwyddau
- Atafael enillion - cyfarwyddo'ch cyflogwr i ddidynnu o'ch enillion
- Gorchymyn talu – i sicrhau'r ddyled yn erbyn eich cartref
- Gorchymyn dyled trydydd-parti – i alluogi tynnu arian yn uniongyrchol o'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu.

Llysoedd Ynadon

Y mae llysoedd ynadon yn gyfrifol am orfodi talu rhai ôl-ddyledion, megis ôl-ddyledion treth cyngor a chynhaliaeth.

Ôl-ddyledion Treth Cyngor

Os ydych wedi methu â thalu'ch treth cyngor, fe all yr Awdurdod Lleol ofyn i'r llys ynadon wneud gorchymyn **atebolrwydd**. Y mae gorchymyn atebolrwydd yn datgan bod unigolyn yn atebol am dalu swm o dreth cyngor ac nid ydyw wedi'i dalu. Os oes yna ôl-ddyledion sydd eto i'w casglu yn dal i fodoli ar ôl gorchymyn atebolrwydd, fe all yr Awdurdod Lleol:

- Cyfarwyddo beilïod i gasglu'r ddyled

- Mynd â thaliadau o'ch enillion neu o rai budd-daliadau
- Sicrhau arwystl ar eich cartref, hynny yw, y mae'r credydwr yn gofyn i'r llys sicrhau'r ddyled yn erbyn eich cartref.]
- Gwneud cais i'ch gwneud yn fethdalwr (gweler Methdaliad isod)
- Dychwelyd at lys yr ynadon i ofyn am "ymholiad i fodd ariannol". Y mae ymholiad i fodd ariannol yn archwiliad manwl o'ch cyllidau ac fe allai yn y pen draw arwain at garchariad mewn amgylchiadau prin iawn, er enghraifft, os oes gennych yr arian i dalu'ch treth cyngor ond eich bod yn gwrthod â gwneud.

Beilïod ac atafaelu nwyddau

Y mae'r rheolau yn ymwneud â beilïod yn gymhleth, ac y mae'r hyn y gall y beilïod ei wneud yn gyfreithiol yn dibynnu ar am beth y mae'r ddyled. Ewch am gyngor ar frys os ydych yn cael eich bygwth gyda chamau gan feilïod.

Bron bob amser, y mae ar feilïod angen gorchymyn llys i fynd â nwyddau ymaith. Mewn llawer o achosion, nid oes gan feilïod yr hawl i orfodi'u ffordd i mewn i'ch cartref ac y mae ganddynt hawl mynediad heddychol yn unig. Os yw'ch drysau a'ch ffenestri wedi'u cau, ni fydd beilïod yn gallu cael mynediad heddychol i'ch tŷ i fynd â nwyddau ymaith oni bai eich bod chi yn dewis gadael iddynt ddod i mewn.

Ymdrin â dyledion lluosog

Methdaliad

Fe all naill ai'r dyledwr, neu unrhyw gredydwr y mae £750 neu ragor yn ddyledus iddo, ddeisebu'r llys i'r dyledwr gael ei wneud yn fethdalwr. I rai pobl, y mae methdaliad yn ffordd o gael gwared â phwysau oddi wrth gredydwyr ond fe all hefyd gael canlyniadau difrifol iawn ac ni ddylid ymgymryd â hyn yn ysgafn. Os ydych yn cael eich gwneud yn fethdalwr neu'n ystyried mynd yn fethdalwr, ewch am gyngor arbenigol ynglŷn â'r goblygiadau.

Gorchmynion Gweinyddu

Y mae gorchymyn gweinyddu yn orchymyn llys sirol sy'n atal credydwyr a restrir arno rhag cymryd camau gorfodi heb ganiatâd y llys. Fe allwch wneud cais i'r llys sirol am orchymyn gweinyddu os oes gennych:

- cyfanswm dyledion o lai na £5000 a
- dyfarniad llys sirol (neu Uchel Lys) yn eich erbyn.

Y mae gorchymyn gweinyddu yn eich galluogi i dalu'ch dyledion drwy randaliadau rheolaidd i'r llys. Y mae'r llys yn dosbarthu'r taliadau i gredydwyr.

Trefniant Gwirfoddol Unigol

Fe all hyn fod yn ddewis amgen i fethdaliad i rai dyledwyr ac y mae'n golygu gwneud cytundeb gyda'ch credydwyr a gaiff ei oruchwylio gan ymarferydd methdaliad.
I ddod i wybod mwy am y gweithdrefnau hyn, ewch am gyngor ariannol arbenigol.

Teimlo'i bod yn rhy hwyr i gael cymorth?

Hyd yn oed os yw pethau eisoes wedi cyrraedd y tir ble y mae'ch credydwr wedi cael caniatâd i gymryd camau yn eich erbyn, nid yw'n rhy hwyr i ymofyn cymorth gan gynghorydd ariannol. Weithiau, fe all cynghorydd ariannol argyhoeddi'r credydwr i beidio â mynd rhagddo gyda'r achos y mae wedi cael awdurdod i'w gymryd. Er enghraifft, fe all cynghorydd ariannol gynorthwyo i ohirio gwarant i weithredu gan lys sirol neu gael dyfarniad llys sirol wedi'i roi o'r neilltu.

Cynyddu Incwm Hyd yr Eithaf

Un ffordd o geisio â rheoli'ch problemau dyledion yw drwy weld a oes yna unrhyw ffyrdd y gallwch gynyddu'r swm o arian sydd ar gael i'ch teulu. Fe all fod gennych rai asedau y mae'n bosibl eu cyfnewid am arian neu'u gwerthu. Fe all y rhain ddarparu cyfandaliad ichi y gallwch ei ddefnyddio i dalu rhywfaint o'ch dyledion. Fe all rhai credydwyr fod yn fodlon derbyn cyfandaliad fel 'setliad llawn a therfynol' o ddyled, gan ddileu'r gweddill sy'n ddyledus.

Yn dibynnu ar eich cyfrifoldebau yn gofalu, fe all fod yn bosibl cynyddu'ch incwm drwy weithio mwy o oriau neu drwy wneud mwy o oriau ychwanegol. Fodd bynnag, fe ddylech hefyd gofio y gall enillion uwch arwain at golli rhai o fudd-daliadau neu gredydau treth y mae prawf modd arnynt. Y mae hwn yn faes cymhleth iawn – ewch am gyngor manwl drwy ffonio'n Llinell Gymorth am ddim.

Os yw'ch eiddo yn ddigon mawr, fe allech hefyd ddymuno ystyried y dewis o gymryd lletywr. Fodd bynnag, fe fydd arnoch angen ystyried yr effaith ar unrhyw fudd-daliadau a dderbyniwch y mae prawf modd arnynt. Fe all fod arnoch hefyd angen caniatâd oddi wrth y landlord neu'r benthyciwr morgais o dan gytundeb eich tenantiaeth neu'ch benthyciad. Fe fydd arnoch hefyd angen ystyried yr effaith debygol ar eich teulu. Y mae byw gyda dyledion eisoes yn eithriadol o ingol ac efallai na allwch ymdopi gyda'r straen ychwanegol o gael lletywr.

Hawlio budd-daliadau a chredydau treth ychwanegol

Fe ddylech bob amser ymofyn archwiliad budd-daliadau er mwyn gweld a oes yna unrhyw fudd-daliadau neu gredydau treth ychwanegol y dylech eu cael. Y mae rhai rhieni yn colli budd-daliadau oherwydd eu bod yn tybio yn anghywir na chânt hawlio dim pan fônt yn gweithio. Fodd bynnag, nid oes yna brawf modd ar rai budd-daliadau (e.e. LBA) tra bod llawer o rai eraill yn dal i gael eu talu os ydych yn gweithio, cyn belled nad yw'ch enillion yn rhy uchel. Os ydych yn gallu hawlio unrhyw fudd-daliadau ychwanegol, fe fydd hyn yn arwain at godiad yn eich incwm wythnosol. Os gellir ôl-ddyddio'r budd-dal, fe fydd hefyd yn rhoi cyfandaliad bychan ichi allu ceisio â thalu rhywfaint o'ch dyled.

Yr ydym yn amlinellu isod y budd-daliadau a gaiff eu hawlio yn fwyaf cyffredin gan deuluoedd sydd â phlant anabl. Y mae gwybodaeth fwy manwl am holl brif fudd-daliadau'r wladwriaeth ar gael yn ein taflen wybodaeth am ddim, "*Benefits, Tax Credits and other Financial Assistance*", sydd ar gael am ddim oddi wrth y Llinell Gymorth. Fe allwch hefyd ffonio'n Llinell Gymorth am archwiliad budd-daliadau llawn i sicrhau nad ydych yn colli unrhyw fudd-dal.
Os nad ydych yn sicr a oes gennych hawl i fudd-dal, cwblhewch ffurflen hawlio pa un bynnag, gan ei bod yn anodd ôl-ddyddio'r rhan fwyaf o fudd-daliadau. Os ydych yn gofalu am oedolyn, yna fe all cais am Lwfans Gofalwr amharu ar fudd-daliadau'r person hwnnw. Ewch am ragor o gyngor cyn gwneud cais yn y cyfryw amgylchiadau.

Lwfans Byw i'r Anabl (LBA)

Y prif fudd-dal ar gyfer plant anabl yw LBA. Y mae hwn yn cynnwys dwy ran:

- Yr **elfen ofal** ar gyfer plant y mae arnynt angen sylw neu oruchwyliaeth ychwanegol. Fe delir hwn ar dair cyfradd wahanol, yn dibynnu ar faint o gymorth neu oruchwyliaeth y mae ar y plentyn ei angen;

- Yr **elfen symudedd** ar gyfer plant y mae arnynt angen cymorth i symud o amgylch. Y mae hwn yn daladwy ar ddwy gyfradd wahanol, yn dibynnu ar natur y broblem symudedd.

- Fe all eich plentyn fod yn gymwys am un o'r ddwy neu'r ddwy elfen hyn. Os yw'ch plentyn yn cael

yr elfen ofal ar y gyfradd ganolig neu uchaf, fe all fod gennych hefyd hawl i Lwfans Gofalwr. Fe all cael LBA hefyd arwain at daliadau uwch o Gredyd Treth Plant – felly, sicrhewch eich bod yn gadael i'r Swyddfa Credydau Treth wybod os ydych yn gwneud cais am LBA. Nid oes prawf modd ar LBA, ac felly fe allwch hawlio, ni waeth beth fo incwm neu gyfalaf eich teulu.

Lwfans Gofalwr (LG)
Os yw'ch plentyn yn cael yr elfen ofal o LBA ar y gyfradd ganolig neu uchaf, fe allech fod yn gymwys i hawlio LG. Os ydych yn gweithio, yna ni chaiff eich cyflog (ar ôl didyniadau ar gyfer rhai costau gofal plant a threuliau eraill) fod yn uwch na throthwy enillion. Y mae'r trothwy enillion hwn ar hyn o bryd yn £82 yr wythnos (Ebrill 2005-06). Os ydych yn fyfyriwr, y mae'n rhaid i'ch cwrs fod yn llai na 21 o oriau o astudio dan oruchwyliaeth yr wythnos. Fe ddylech hawlio Lwfans Gofalwr a LBA ar yr un pryd i sicrhau bod unrhyw ddyfarniad o'r ddau fudd-dal yn cael eu hôl-ddyddio yn llawn.

Credydau Treth

Credyd Treth Plant (CTP)

Fe ellir hawlio CTP gan unrhyw berson sydd â phlentyn dibynnol, ni waeth pa un ai a ydych yn gweithio ai peidio. Fe allech dderbyn CTP uwch os oes gennych blentyn sydd ag anabledd. Y mae hyn oherwydd yr ychwanegir swm ychwanegol at eich cyfrifiad ar gyfer pob plentyn sydd ar LBA neu sydd wedi'i gofrestru fel dall. Os yw'ch plentyn yn cael y gyfradd uchaf o elfen ofal LBA, fe ychwanegir swm ychwanegol yn ogystal.

Credyd Treth Gwaith (CTG)

Fe allwch hawlio CTG os oes gennych blentyn dibynnol ac yr ydych chi (neu'ch cymar, os oes gennych un) yn gweithio o leiaf 16 o oriau'r wythnos. Yn ogystal â rhieni, fe all rhai grwpiau eraill o weithwyr hefyd wneud cais. Fe all CTG weithiau gynnwys cymorth gyda chostau gofal plant sy'n gostau cymwys.
Y mae swm y Credydau Treth a gewch fel arfer yn seiliedig ar eich incwm blynyddol crynswth am y flwyddyn dreth flaenorol. Er bod yna brawf modd ar Gredydau Treth, yr ydych yn sicr o gael rhywfaint o Gredyd Treth Plant cyn belled â bod eich incwm yn llai na £58,000 (£66,000 os oes gennych faban dan 1). Yn wahanol i'r rhan fwyaf o fudd-daliadau eraill sydd â phrawf modd arnynt, nid oes yna derfyn cyfalaf. Fe ellir ôl-ddyddio Credydau Treth hyd at gyfnod hwyaf o 3 mis.

Cymhorthdal Incwm a LCG yn seiliedig ar incwm

Y mae cymhorthdal incwm yn fudd-dal sydd â phrawf modd arno er mwyn cynorthwyo unigolion neu deuluoedd sydd ar incwm isel ac sydd â chynilion dan £8,000 (£16,000 o Ebrill 2006). I fod yn gymwys, y mae'n rhaid ichi fod yn rhywun nad oes gofyn iddo fod ar gael ar gyfer gwaith; er enghraifft, gofalwr neu riant unigol. Y mae Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm yn fudd-dal cyffelyb iawn ond y mae ar gyfer pobl sydd ar incwm isel sy'n gorfod cofrestru eu bod ar gael ar gyfer gwaith.

Budd-dal Tai (BT) a Budd-dal Treth Cyngor (BTC)

Y mae'r budd-daliadau hyn wedi'u cynllunio i gynorthwyo pobl sydd ar incymau isel i dalu'u rhent a'u Treth Cyngor. Os ydych eisoes yn cael CI, LCG yn seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn (Credyd Gwarant), fe fyddwch fel arfer yn gymwys am BT a BTC llawn. Fodd bynnag, hyd yn oed os yw'ch incwm yn rhy uchel ichi gael unrhyw un o'r budd-daliadau cymwys uchod (e.e. oherwydd eich bod yn gweithio), fe allech er hynny fod yn gymwys am rywfaint o Fudd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor. Y mae'r swm o gymorth a gewch yn dibynnu ar faint y mae'ch incwm uwchlaw lefelau Cymhorthdal Incwm. Fe wrthodir BT a BTC yn awtomatig ichi os oes gennych gynilion o £16,000 neu fwy – oni bai'ch bod yn cael y Credyd Pensiwn (Credyd Gwarant).
Y mae BT a BTC yn fudd-daliadau Awdurdodau Lleol sy'n golygu y bydd arnoch angen cysylltu â'ch cyngor lleol am ffurflenni hawlio. Fe ellir ôl-ddyddio cais am BT neu BTC am hyd at 52 o wythnos, cyn belled â bod gennych achos da am gais hwyr. Fe fydd ymdrin â phroblemau iechyd plentyn yn aml yn cael ei dderbyn fel achos da. Y mae yna hefyd reolau mwy hael ynglŷn ag ôl-ddyddio ar gyfer rhai pobl dros 60.



Cynllun gostyngiad anabledd Treth Cyngor

Y mae'r cynllun hwn yn cynorthwyo i ostwng eich bil Treth Cyngor os oes yna rywun yn eich cartref yn anabl, ac y mae gennych ail ystafell ymolchi neu gegin y mae ar y person hwnnw ei hangen. Fe allwch hefyd fod yn gymwys am ostyngiad os oes gennych ystafell yn eich tŷ (heblaw am ystafell ymolchi, cegin neu doiled) y mae ar berson anabl ei hangen, neu os oes rhywun yn defnyddio cadair olwyn yn y tŷ. Fe ellir ôl-ddyddio gostyngiad anabledd i'r dyddiad y gwnaethoch ddiwallu'r amodau cymhwyso am y tro cyntaf. Fe fydd yr awdurdod lleol fel arfer yn mynnu eich bod yn cyflwyno cais ar wahân am bob blwyddyn.

Cynllun Disgownt Treth Cyngor

Pan fydd yna ond 1 oedolyn mewn cartref, fe ddylech dderbyn disgownt o 25% ar eich bil. Wrth asesu disgownt, fe all rhai oedolion, gan gynnwys rhai gofalwyr, gael eu trin fel pe baent yn "anweladwy". Ymofynnwch ragor o gyngor oddi wrth ein Llinell Gymorth.

Cymorth gyda chostau GIG

Y mae'r rhain yn cynnwys presgripsiynau am ddim, triniaeth ddeintyddol am ddim, profion llygaid ar y GIG am ddim, a thalebau i gynorthwyo gyda chost sbectol. Fe all amrywiol grwpiau fod yn gymwys am y cymorth hwn, gan gynnwys y sawl sydd ar Gymhorthdal Incwm a LCG yn seiliedig ar incwm. Hefyd, os ydych yn cael Credyd Treth Gwaith (gan gynnwys elfen anabledd) neu Gredyd Treth Plant, ac y mae'ch incwm blynyddol crynswth islaw rhyw swm neilltuol (£15,050 am 2005/06), fe allwch fod yn gymwys am fudd-daliadau GIG.

Grantiau Gofal yn y Gymuned

Os ydych ar CI, LCG yn seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn, fe allech wneud cais i'r Gronfa Gymdeithasol am grant dewisol. Nid oes yn rhaid ad-dalu hwn. Fe wneir y taliadau hyn i leddfu pwysau eithriadol ar deuluoedd neu i gynorthwyo pobl sydd naill ai mewn perygl o fynd dan ofal neu o angen cymorth i ymgartrefu yn y gymuned ar ôl arhosiad mewn gofal preswyl neu garchar. Fel arfer, fe roddir grant am eitemau penodol. Fe allai hyn gynnwys dillad, dillad gwely ac eitemau hanfodol eraill i'r tŷ. Y mae Grantiau Gofal yn y Gymuned yn aml yn cael eu dyfarnu i deuluoedd sydd â phlant anabl neu blant sydd â phroblemau iechyd difrifol.

Mathau Eraill o Gymorth Ariannol Lwfans Cynhaliaeth Addysgol (LCA)

Os oes gennych blentyn 16 neu 17 mlwydd oed sydd wedi parhau i aros yn yr ysgol neu'r coleg, fe allai fod yn gymwys am LCA. Y mae swm yr LCA yn dibynnu ar incwm y rhieni. Nid yw LCA yn effeithio ar unrhyw un o'r budd-daliadau yr ydych chi neu'ch plentyn yn eu derbyn. Cysylltwch ag ysgol neu goleg eich plentyn neu â'n Llinell Gymorth am fwy o fanylion.

Grantiau Tai

Fe all rhai rhieni fynd i ddyled o ganlyniad i dalu am addasiadau drud i'w cartref sydd eu hangen ar blentyn gydag anableddau. Fodd bynnag, fe all Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl gynorthwyo gyda chostau gwaith megis adeiladu mannau chwarae diogel, gosod lifft grisiau, addasu system oleuo neu wresogi, neu adeiladu cyfleusterau ystafell ymolchi newydd. I fod yn gymwys am Grant Cyfleusterau i'r Anabl (GCA), y mae'n rhaid ichi fod yn berchennog preswyl, tenant (preifat, awdurdod lleol neu gymdeithas dai) neu landlord sydd â thenant anabl. Y mae yna brawf modd ar y grant yn Lloegr. Fe ddaeth rheoliadau yn ymwneud â diddymu'r prawf modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar rieni plant anabl yng Nghymru i rym ar y 30ain o Fedi, 2005. Y mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi'i bwriad i ddiddymu'r prawf modd am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar rieni plant anabl yn Lloegr o Ragfyr, 2005. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch ein Llinell Gymorth. Y mae gan awdurdodau lleol hefyd rymoedd disgresiwn i ddarparu cymorth ariannol a mathau eraill o gymorth ar gyfer gwelliannau neu atgyweiriadau i'r cartref. Fe all hyn fod ar ffurf grant, benthyciad, llafur, deunyddiau neu gyngor. Cysylltwch ag adran dai eich awdurdod lleol neu ffoniwch ein Llinell Gymorth am fwy o wybodaeth.

Cronfa'r Teulu

Fe all Cronfa'r Teulu roi cyfandaliadau ar gyfer eitemau penodol sy'n deillio o ofalu am blentyn sydd dan 16 ac sydd ag anableddau difrifol neu sy'n ddifrifol o wael. Fe roddir

ystyriaeth i'ch amgylchiadau cymdeithasol ac ariannol. Fe fydd y Gronfa yn ystyried unrhyw ddeisyfiad ac felly fe allwch ofyn am beth bynnag y mae arnoch angen fwyaf: er enghraifft, offer golchi dillad, treuliau cludiant, dillad, gwyliau ac yn y blaen. Fe all cael cymorth gyda'r mathau hyn o gostau sy'n gysylltiedig ag anabledd fod o gymorth ichi allu defnyddio rhywfaint o'ch incwm i gynorthwyo gyda thalu'ch dyledion. I wneud cais, gofynnwch am ffurflen gais oddi wrth y Gronfa neu gwnewch gais ar-lein: **The Family Fund**, Unit 4 Alpha Court, Monks Cross Drive, York, YO32 9WN Ffôn: 0845 1304542 e-bost: info@familyfund.org.uk Gwefan: http://www.familyfund.org.uk . Neu fel arall, ffoniwch ein Llinell Gymorth am ffurflen gais.

Grantiau oddi wrth elusennau a chronfeydd llesiannol

Y mae'n werth ystyried gwneud cais i elusen am gymorth ariannol. Fe wna rhai elusennau ystyried rhoi cyfandaliad i gynorthwyo gyda materion neilltuol sy'n peri cyni ariannol, e.e., cynorthwyo tuag at dalu bil nwy neu drydan ble y mae ar rywun yn y cartref anabledd. Efallai y bydd eraill ond yn fodlon cynnig cymorth ariannol tuag at gostau penodol yn gysylltiedig â gwaeledd neu anabledd eich plentyn. Fodd bynnag, fe all sicrhau grant tuag at y cyfryw gostau olygu y byddai gennych fwy o incwm wythnosol a all fynd tuag at dalu'ch dyledion.

Hefyd, y mae gan rai cwmnïau cyfleustodau a dŵr ymddiriedolaethau elusennol. Cysylltwch â'ch cyflenwr i weld a ydynt yn gweithredu ymddiriedolaeth elusennol o'r fath neu cysylltwch â'r sefydliad CHARIS, a all ddarparu manylion ynglŷn ag ymddiriedolaethau. Manylion cysylltu CHARIS yw 01733 421050 (http://www.charisgrants.com).

Y mae Cyfeirlyfr Newid Cymdeithasol yn cyhoeddi "Canllaw i Grantiau ar gyfer Unigolion mewn Angen." Y mae hwn yn ganllaw ymarferol i ffynonellau arian sydd ar gael oddi wrth fwy na 2,500 o ymddiriedolaethau ac elusennau. Fe all fod gan eich llyfrgell leol neu'ch Canolfan Gynghori gopi o'r canllaw hwn.

Y mae gan ein Llinell Gymorth hefyd restr o elusennau sy'n rhoi grantiau i deuluoedd sy'n gofalu am blentyn sydd ag anabledd. Cysylltwch â'r Llinell Gymorth am gopi.

Fe all hefyd fod yn werth cysylltu ag unrhyw fudiad sy'n ymwneud â chyflwr neilltuol eich plentyn. Y mae rhai o'r elusennau hyn yn darparu grantiau bychain. Fe all cynghorydd ar ein Llinell Gymorth eich cynorthwyo i ganfod elusen addas.

Cymorth ariannol oddi wrth y Gwasanaethau Cymdeithasol

Y mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol y grym i ddarparu cymorth ariannol i deulu pan fônt yn credu bod hyn yn angenrheidiol i gynorthwyo plentyn. Fe fyddant ond fel rheol yn ystyried gwneud y cyfryw daliadau mewn amgylchiadau eithriadol. Fodd bynnag, fe all fod yn werth gwneud cais o'r fath os ydych mewn sefyllfa o argyfwng, megis wynebu



cael eich datgysylltu oherwydd ôl-ddyledion tanwydd neu'ch dadfeddiannu o ganlyniad i ôl-ddyledion rhent.

Isafswm Cyflog

Os ydych yn gweithio, gwiriwch a delir yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol ichi. Rhif ffôn y Llinell Gymorth Isafswm Cyflog Cenedlaethol yw: 08456 000 678.

Lleihau costau tanwydd

Y mae'r cynllun effeithlonrwydd ynni yn y cartref yn cynnig grantiau sy'n cynorthwyo i dalu am gostau insiwleiddio'r cartref ac gwella effeithlonrwydd ynni. Y mae ar gael i berchenogion preswyl ac i bobl sy'n rhentu llety ac sy'n bodloni'r amodau cymhwyso. Fe elwir y cynllun yn **Warm Front** yn Lloegr a **HEES** yng Nghymru. Y mae yna hefyd gynllun mwy hael yng Nghymru, **HEES a Mwy,** ar gyfer ceisyddion neilltuol. Fe weinyddir y cynllun gan gwmni o'r enw Eaga Partnership Ltd, a adwaenir fel rheolwr y cynllun. Y mae gwybodaeth am y cynllun ar gael oddi wrth Eaga drwy ffonio rhadffôn 0800 316 6011 yn Lloegr neu 0800 316 2815 yng Nghymru.

Os hoffech ragor o fanylion parthed unrhyw wybodaeth yn y daflen wybodaeth hon neu os hoffech drafod eich achos eich hun yn fanylach, a fyddech cystal â ffonio **Llinell Gymorth Cyswllt Teulu** ar rif rhadffôn: 0808 808 3555 (Dydd Llun i Ddydd Gwener, 10.00 y bore-4.00 y pnawn), e-bost: helpline @cafamily.org.uk . Y mae'r daflen wybodaeth hon yn un o amrywiaeth a gynhyrchir gan Cyswllt Teulu, sy'n cynnwys "*Benifits, Tax Credits and other Financial Assistance*", "*The Tax Credits Guide*", "*Working and Caring for a Disabled Child*". Y mae copïau ar gael am ddim oddi wrth ein Llinell Gymorth.

TAFLEN INCWM / GWARIANT

(Cofiwch fod yn gyson wrth ddefnyddio ond symiau wythnosol neu ond symiau misol)

INCWM	£		GWARIANT	£
Cyflog			Morgais/rhent	
Cyflog y cymar			Polisi gwaddol	
Cymhorthdal Incwm			2ail forgais/benthyciad wedi'i warantu	
Lwfans Ceisio Gwaith			Taliadau am wasanaeth	
Credydau Treth			Yswiriant adeiladau/y cynnwys	
Budd-dal Plant			Yswiriant Bywyd	
Lwfans Byw i'r Anabl / Lwfans Gweini			Treth Cyngor	
Lwfans Gofalwr			Taliadau dŵr	
Budd-daliadau eraill y wladwriaeth			Nwy	
Pensiwn Ymddeol y Wladwriaeth			Trydan	
Pensiynau eraill			Unrhyw gostau tanwydd eraill	
Cynhaliaeth (a dderbyniwch)			Costau yn gysylltiedig ag anabledd	
Incwm oddi wrth letywyr			Costau gofal plant	
Incwm Arall			Presgripsiynau a chostau iechyd eraill	
CYFANSWM INCWM			Teithio (gan gynnwys unrhyw gostau	
			Dirwyon llys	
			Ciniawau ysgol/prydau bwyd yn y gweithle	
			Cynhaliaeth (a dalwch)	
			Ffôn (gan gynnwys unrhyw ffonau symudol)	
			Trwydded teledu/teledu ar rent	
			Hurbrynu	
			Pethau ar rent	
			Bwyd a chadw tŷ	
			Dillad ac esgidiau	
			Golchi dillad	
			Papurau newyddion/cylchgronau	
			Arian poced y plant	
			Chwaraeon a hamdden	
			Costau eraill	
			CYFANSWM GWARIANT	

Published by: Contact a Family, 209-211 City Road, London EC1V 1JN Tel (020) 7608 8700

Reg. Charity No. 284912

© Contact a Family 2005

Designed by Edd Baldry. Printed by Instant Print West One

Written by: Philomena Murphy

Although great care has been taken in the compilation and preparation of this factsheet to ensure accu-